

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio gyda chydweithwyr ac asiantaethau eraill i nodi unigolion sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol a/neu droseddu.

Mae'r safon hon yn cyfeirio at ymddygiad problematig unigolion. Gall hyn fod yn wrthgymdeithasol, yn heriol neu'n droseddol, ac mae'n golygu bod yr unigolyn mewn perygl o droseddu/aildroseddu.

Pan ddefnyddir offeryn asesu, gall hwn fod ar bapur a/neu'n electronig.

Grŵp targed

Mae'r safon hon yn berthnasol i'r rhai sy'n gyfrifol am atal ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddu gan unigolion.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

- P1. cysylltu ag ysgolion lleol, yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill i adnabod unigolion ag ymddygiad problematig
- P2. nodi pam mae'r asiantaethau yn ystyried bod ymddygiad unigolion penodol yn broblemus
- P3. casglu gwybodaeth berthnasol o ffynonellau eraill am yr unigolion a nodwyd
- P4. asesu a yw ymddygiad yr unigolyn ac effaith yr ymddygiad yn broblem
- P5. adolygu amgylchiadau i nodi ffactorau a allai fod yn cyfrannu at yr ymddygiad
- P6. nodi unigolion lle mae risg cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu yn deilwng o asesiad pellach, a nodi cyfiawnhad rhesymedig
- P7. argymhell i'r person perthnasol yn eich sefydliad y camau i'w cymryd a chytuno ar y ffordd ymlaen
- P8. diweddarau asiantaethau perthnasol ar gynnydd o fewn amserlenni gofynnol
- P9. cadw cofnodion cywir a chyfredol o gynnydd
- P10. defnyddio offer asesu safonedig yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

K1. canllawiau cyfreithiol, rheoleiddiol a chysylltiedig sy'n mynd i'r afael ag atal ymddygiad gwrthgymdeithasol/troseddu, gan gynnwys:

K1.1 eu cyd-destun lleol, cymdeithasol a gwleidyddol

K1.2 eu heffaith ar eich gwaith gydag asiantaethau eraill

K2. yr ysgolion, yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill sy'n gallu adnabod unigolion sydd mewn perygl o gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu

K3. arwyddion o ymddygiad problemus

K4. gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer ymdrin ag achosion lle mae ymddygiad problematig yn cael ei nodi

K5. ffactorau a allai gyfrannu at ymddygiad problematig a phwysigrwydd mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol

K6. ffynonellau gwybodaeth tuag at archwilio amgylchiadau unigolion sy'n arddangos ymddygiad problematig

K7. pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng ffaith a barn

SFJ BB3

Nodi unigolion sydd mewn perygl o gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu



Datblygwyd gan	Skills for Justice
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2013
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Ion 2018
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Justice
RCU gwreiddiol	SFJ BB3
Galwedigaethau perthnasol	Swyddog Tîm Troseddwr Ifanc, Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, Uwch Swyddog Tîm Troseddwr Ifanc, Rheolwr Cyfiawnder Ieuenctid, Gweithiwr Tîm Troseddwr Ifanc, Ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid, Uwch Weithiwr Tîm Troseddwr Ifanc, Uwch Ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwr Tîm Troseddwr Ifanc
Cyfres/Set	Cyfiawnder Ieuenctid, Ailsefydlu Troseddwr
Geiriau Allweddol	Risg; gwrthgymdeithasol; troseddu; ymddygiad; ieuenctid
